



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**29 EBRILL 2019**

**ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG  
- I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG  
2018 – 2019**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y  
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA  
DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

**AWDURON:** Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111) Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018-2019 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

**2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chymeradwyo'r gwaith o sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf, fel bod modd i'r cyhoedd ei weld;
- 2.3 Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo'r ffaith bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

**3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 O dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio, a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn

perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n amlinellu'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y Safonau Darparu Gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- y Safonau Llundio Polisiâu roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- y Safonau Gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.2 Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at ohirio'r dyddiad gosod ar gyfer cyflawni agweddau o'r 3 safon (52, 58 a 64<sup>1</sup>) tan 31 Mawrth 2018, fel bod y cynnydd yn erbyn y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro blynyddol am y tro cyntaf.
- 4.3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r drydedd flwyddyn lawn o weithredu'r safonau - o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan, rhaid iddo fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2019, fan bellaf.
- 4.4 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- 4.5. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i adroddiad blynyddol eleni gynnwys y canlynol:
- nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii)

---

<sup>1</sup> Safon 52 - doedd dim gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â gwefannau ac eithrio'r wefan corfforaethol tan 31/3/2018.

Safon 58 - cafodd y gofyn i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol ac eithrio prif gyfrif y Cyngor ei symud i 31/3/2018.

Safon 64 - cafodd ardaloedd a ddiffinnir fel 'gwasanaeth derbynfa' (er enghraifft, Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac ati) ac eithrio prif gwasanethau derbynfa'r Cyngor ei symud i 31/8/18.

llunio polisïau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw;

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw;
- nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysebu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## **5. Y SEFYLLFA BRESENNOL**

5.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn Atodiad 1 yn disgrifio'n fanwl y gwaith a wnaed gan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Dylid nodi'r canlynol yn benodol:

- cyflwyno Hyfforddiant Lefel 1 yn y Gymraeg i bob aelod o staff newydd a benodir;
- Darparu hyfforddiant yn y Gymraeg i 455 o aelodau o staff (Chwefror 2019) ar bob lefel gyda mwy o hyfforddiant Cymraeg yn nhymor yr Hydref 2018 ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd;
- Penodi Uwch Gyfieithwyr gan ganiatáu gwasanaeth mwy effeithlon, gyda chymorth penodol ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa'r Cabinet.
- Darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau e.e. Pwyllgorau Craffu a Rheoleiddio;
- Cyflwynwyd cwestiwn newydd i'w ddefnyddio ar gyfer pob ymgynghoriad ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei gael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg;
- Adolygiad parhaus o dudalennau'r Wefan, gan ddileu unrhyw dudalennau nad oedd yn cydymffurfio

5.2 Er gwaethaf y cynnydd da mae'r Cyngor wedi'i wneud, rydyn ni'n dal i wynebu heriau wrth geisio sicrhau cydymffurfiaeth iawn. Mae'r meysydd penodol sy'n parhau i fod yn heriol yn cynnwys y canlynol:

- Yr angen i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a datblygu sgiliau ein staff cyfredol ymhellach o ran dysgu Cymraeg fel bod modd i wasanaethau ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg (cafodd hyn ei nodi fel angen gan bron pob un o wasanaethau'r Cyngor yn eu Hunanwerthusiadau ar gyfer 2018/19);
- Y gallu i ateb y galw cynyddol am hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 a chydbwysu hyn â'r angen i ddarparu datblygiad sgiliau parhaus i staff sydd ar lefel uwch o ran sgiliau Cymraeg;
- Y gallu i gynnal y baich gweinyddol cynyddol sy'n gysylltiedig â threfnu a chyflenwi hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 gorfodol ar gyfer pob gweithiwr newydd a benodir oherwydd nifer y penodiadau newydd;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith trigolion a staff fel sy'n ofynnol o dan y Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo a Hwyluso'r Gymraeg;
- Monitro elfennau partneriaeth y Strategaeth 5 Mlynedd;
- Sicrhau bod yr holl wefannau a chyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r cyngor yn ddwyieithog

5.3 Hyd yn oed wrth i ni wynebu rhai o'r heriau a nodwyd yn 5.2, mae'r adborth gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfarfod blynyddol gyda Swyddogion Cydymffurfio yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn o ran y cynnydd a wnaed yn Rhondda Cynon Taf. Er enghraifft, cafodd swyddogion o'r Uned Gwasanaethau Cymraeg eu gwahodd i gyflwyno eu gwaith yn seminar Arferion Llwyddiannus Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2018, a hynny yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Roedd hyn am fod cynnal archwiliadau yng nghyd-destun cydymffurfio gyda dyletswyddau ieithyddol statudol yn cael ei nodi fel maes o arfer da yn [Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 18/19 Comisiynydd y Gymraeg](#).

## 6. **GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## **7. YMGYNGHORIAD**

Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

## **8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

## **9. GOBLYGIAD(AU) CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

## **10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

10.2 Mae'r Adroddiad Cydymffurfio yn amlinellu gwaith y Cyngor o ran cydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir. Bydd cyflawni'r safonau yn atal cwynion gan drigolion sy'n methu â manteisio ar wasanaethau o du'r Cyngor yn y Gymraeg.

10.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn perthyn yn uniongyrchol i Nod 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cydymffurfio â'r Safonau'n gefn i normaleiddio'r Gymraeg a sicrhau na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyna'u dymuniad.

## **11. CASGLIAD**

- 11.1 Dyma'r trydydd adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed gan feysydd gwasanaeth o ran gwreiddio trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 11.2 Cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith, yn enwedig o ystyried goblygiadau'r safonau ychwanegol (52, 58 a 64), sy'n heriol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn hyderus bod y systemau a ddatblygwyd i fonitro cydymffurfiad yn gadarn a bod cymorth ar gael i feysydd gwasanaeth wella eu perfformiad ymhellach lle bo angen.

**Gwybodaeth Arall:**

**Swyddog Cyswllt** - Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg



**RHONDDA CYNON TAF**

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

## **RHONDDA CYNON TAF**

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg - i'w  
gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg  
2018 – 2019

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion  
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ebrill 2019

# CYNNWYS

|  |            |
|--|------------|
| Cyflwyniad                                     | tudalen 1  |
| Uned Gwasanaethau Cymraeg                      | tudalen 3  |
| Cwynion  | tudalen 6  |
| Sgiliau Cymraeg Staff                          | tudalen 12 |
| Hyfforddiant                                   | tudalen 13 |
| Llenwi Swyddi Gwag                             | tudalen 13 |
| Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth     | tudalen 14 |
| Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio | tudalen 14 |



## **CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg**

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016.

### **Gweledigaeth**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisiau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

### **Llywodraethu ac atebolrwydd**

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp trawsbleidiol yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, a monitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

### **Dolenni cyswllt i Bolisiau a Blaenoriaethau'r Cyngor**

Mae ymrwymadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn rhan o ddogfennau cynllunio'r awdurdod gan gynnwys Cynllun Gwella 2015, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chynllun Corfforaethol 2016-2020. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod

dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

## **Rhoi Adroddiad**

Dyma'r drydedd flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno ar 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158 a 164. Mae'r adroddiad, gan gynnwys Atodiad 1, yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Gweithredu
- Safonau Llundio Polisiâu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol, hynny yw:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddi a restrir yn Safon 128 os cawson nhw eu cynnig yn Gymraeg (Safonau 152)
- canran o gyfanswm y staff a fynychodd unrhyw gyrsiau a restrir yn Safon 128 (Safonau 152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
- nifer y cwynion a gafodd y Cyngor

## Yr Uned Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg o ystyried y risgiau sydd ynghlwm â pheidio â chydymffurfio â nhw a hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg, gan ychwanegu 3 aelod o staff newydd ers 17/18, sy'n golygu bod 17 aelod o staff yno bellach. Mae'r uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor yn y ffyrdd canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- darparu tiwtor Cymraeg mewnol
- nodi meysydd lle mae diffyg cydymffurfiaeth posibl
- cofnodi cwynion cwsmeriaid
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg
- cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac mewn cyfarfodydd eraill sy'n agored i Aelodau (e.e. pwyllgorau craffu)
- rhoi cymorth cyfieithu ar y pryd i bob maes gwasanaeth arall fel gwasanaethau cyfreithiol, adnoddau dynol
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd ailstrwythuro o fewn yr Uned yn 2016/17 gyfle i ni ymateb yn rhagweithiol i'r amgylchedd statudol newydd a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol.

Cafodd swydd Swyddog Cydymffurfio a Monitro ei chreu i fonitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor a sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. Cafodd swyddogion o'r Uned Gwasanaethau Cymraeg eu gwahodd i gyflwyno eu gwaith yn seminar Arferion Llwyddiannus Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2018, a hynny yn y

Deml Heddwch, Caerdydd. Roedd hyn am fod cynnal archwiliadau yng nghyd-destun cydymffurfio gyda dyletswyddau ieithyddol statudol yn cael ei nodi fel maes o arfer da yn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 18/19 Comisiynydd y Gymraeg.

Cafodd swydd Tiwtor y Gymraeg ran-amser ei chreu hefyd i drefnu a chyflwyno cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gyflwyno sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus, hynny yw, doedd dim cynnydd yng ngallu ieithyddol y staff. Hyd yma (31 Mawrth 2019), mae'r tiwtor mewnol wedi hyfforddi 455 aelod o staff ar bob lefel. Yn ôl y disgwyl, mae'r ffigur yma wedi cynyddu'n sylweddol er y llynedd oherwydd, erbyn hyn, mae disgwyl i staff sydd newydd eu penodi fynychu gwersi Cymraeg sylfaenol yn rhan o'r broses ymsefydlu.

Cytunwyd ar rywfaint yn rhagor o ailstrwythuro'r gwasanaeth yn ystod 18/19 mewn ymateb i'r angen i gydymffurfio â Safonau ychwanegol mewn perthynas â chyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Cyngor, cyfieithu agendâu, cofnodion a chyflwyniadau PowerPoint cysylltiedig â phenderfyniad Comisiynydd y Gymraeg bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 4 (*'Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl person, rhaid i chi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg'*). O ganlyniad i hyn, penodwyd dau gyfieithydd yn Uwch Gyfieithwyr a chrëwyd swydd cyfieithydd ychwanegol. Mae penodi Uwch Gyfieithwyr yn sicrhau bod modd darparu gwasanaeth mwy effeithlon, gyda chymorth penodol ar gyfer y Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa'r Cabinet.

Efallai y bydd y swyddi yma hefyd yn denu cyfleoedd masnacheiddio drwy ymestyn y ddarpariaeth i gyrff eraill y mae'n ofynnol iddyn nhw gydymffurfio â'r Safonau. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys y canlynol:

### Ymgynghori

- Archwiliad byr o gydymffurfiaeth;
- Hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth o'r safonau / Gwybodaeth sylfaenol - ar gyfer Aelodau Bwrdd, Rheolwyr neu Staff.
- Hyfforddiant Mwy na Geiriau/Cynnig Gweithredol - ar gyfer Aelodau Bwrdd, Rheolwyr neu Staff. Mae hyn yn ymwneud â'r sector gofal/iechyd;

- Paratoi pamffledi: Beth sydd wedi newid, Gosod y Safonau, Cyngor i Reolwyr, Rhwymedigaethau Partneriaid wedi'u comisiynu, Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog, Adnoddau Iaith Gwaith, Brandio Derbynfydd, Cortynnau Gwddf, Poster.

### **Hyfforddiant Cymraeg**

- Hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 (geirfa sylfaenol, lleoliadau penodol);
- Hyfforddiant Magu Hyder (ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg eisoes).

### **Cefnogaeth Barhaus**

- Cefnogaeth barhaus yn ôl yr angen drwy e-bost neu dros y ffôn; neu
- Cyfres o gyfarfodydd ymgynghori lle mae modd rhoi cyngor wyneb yn wyneb i Reolwyr Gwasanaeth/Arweinwyr ac ati.

Parhawyd i gynhyrchu a dosbarthu dogfennau ac adnoddau cyfarwyddyd yn ystod 2018-2019 ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

### **Poster Derbyniad Corfforaethol**

Mae Cyngor RhCT yn falch o groesawu'r logo Cymraeg fel rhan o'i frand corfforaethol ac roedden ni am greu brand 'Croeso i chi ddefnyddio Cymraeg' ar gyfer ein derbynfydd, gan annog y cyhoedd a staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol**

Cafodd y canllawiau eu llunio mewn ymateb i'r presenoldeb cynyddol sydd gan yr Awdurdod Lleol ar gyfryngau cymdeithasol - gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; Snapchat, Instagram, Facebook a Twitter. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu'r sawl sy'n llunio cynnwys i gydymffurfio â'r Safonau perthnasol.

### **Y Goeden Benderfyniadau**

Mewn ymateb i benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 4 (*'Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl person, rhaid i chi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg'*), ac adborth gan staff yn nodi cwestiwn sy'n codi'n aml, sef **'Pryd**

**ddyfwn i anfon rhywbeth yn ddwyieithog a phryd y gallaf ei anfon mewn un iaith?** - datblygodd Uned Gwasanaethau Cymraeg a chydweithwyr ym maes lechyd a Diogelwch y Cyhoedd goeden benderfyniadau ar gyfer cyfathrebu Safonol ac Ansafonol. Y nod oedd sicrhau bod staff rheng flaen a rheolwyr fel ei gilydd yn gallu mynd ati i gydymffurfio â'r Safonau perthnasol.

Gan gryfhau'r berthynas rhwng yr Uned Gwasanaethau Cymraeg a meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor, cytunwyd y byddai pob maes gwasanaeth yn parhau i adrodd am ddatblygiadau perthnasol yn eu Hadroddiadau Hunanwerthuso Blynyddol oherwydd pwysigrwydd y Safonau. Mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

### **CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)**

Cafodd y cwynion canlynol eu derbyn, neu parhawyd i ymchwilio iddyn nhw, yn ystod/ yn 2018 - 2019:

| <b>Dyddiad y gŵyn</b>        | <b>Natur</b>  | <b>Drwy</b>                       | <b>Deilliant/Ymateb</b>   |
|------------------------------|---|-----------------------------------|---|
| Gorffennaf 2016<br>- Parhaus | Gwasanaethau<br>Hamdden: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg<br>(CSG130) | Cymeradwyodd y Comisiynydd Gynllun Gweithredu'r Cyngor i wella darpariaeth Gwersi Nofio Cyfrwng Cymraeg ar draws ein bwrdeistref sirol ar 24 Tachwedd 2017. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio trwy'r cynllun gweithredu. Y camau sy'n weddill - <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal gwersi arbrofol yn ardal Cwm Cynon y Fwrdeistref Sirol.</li> <li>• Dechrau darparu yn Ardal y Rhondda (Ebrill 2019).</li> </ul> |

|   |  |                                |   |
|---|--|--------------------------------|---|
| Hydref 2017 - Parhaus                   | Gwasanaeth Pensiynau Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg  | Comisiynydd y Gymraeg (CSG130) | <p>Derbyniodd y Cyngor ei Hysbysiad o'r Penderfyniad Arfaethedig gan y Comisiynydd ar 13/03/2017, a gadarnhaodd i'r Cyngor fethu â chydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â gohebiaeth a gafodd ei hanfon at sawl derbynnydd. Ers hynny, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cymryd y camau gofynnol, sef adolygu pob llythyr safonol mae'n ei anfon at sawl unigolyn er mwyn sicrhau bod fersiwn Cymraeg ar gael.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon at sawl unigolyn yn cael ei hanfon yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.</p> <p><b>Amserlen:</b> Cyn pen 90 diwrnod o gyhoeddi penderfyniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p>Mae'r Cyngor, o ganlyniad i'r archwiliad a gynhaliwyd, wedi datblygu coeden benderfyniadau i helpu swyddogion bennu iaith pob gohebiaeth safonol ac ansafonol.</p> |
| Mawrth 2018                             | Aelod Etholedig / Cyflogres:<br>Llythyr a anfonwyd at gyflogai blaenorol yn Saesneg yn unig ynghylch gordalu cyflog. | Aelod o'r cyhoedd.             | Atgoffa pob aelod o staff i ohebu yn newis iaith yr unigolyn (staff neu aelod o'r cyhoedd) neu'n ddwyieithog lle nad yw hyn wedi'i gofnodi.   |
| Ebrill 2018 (Yn gysylltiedig â'r uchod) | Uwch Dîm Rheoli / Swyddfa'r Cabinet / Aelodau Etholedig:<br>Anfon llythyr taliad hwyr awtomatig ynghylch gordaliad   | Aelod o'r cyhoedd              | Atgoffa pob aelod o staff i ohebu yn newis iaith yr unigolyn (staff neu aelod o'r cyhoedd) neu'n ddwyieithog lle nad yw hyn wedi'i gofnodi. (Nid oedd y newidiadau wedi dod i rym eto o'r cyngor uchod).  |

|  |   |                                |  |
|--|---|--------------------------------|--|
|  | cyflog yn Saesneg yn unig.  |                                |  |
| Mehfin 2018<br>(Yn gysylltiedig â'r uchod) | Uwch Dîm Rheoli / Swyddfa'r Cabinet / Aelodau Etholedig: Cafodd y Cyngor ei gopïo i mewn i gŵyn arall, a anfonwyd yn uniongyrchol at Arweinydd Plaid Cymru, ynghylch llythyr 'cydnabyddiaeth' ynglŷn â'r gŵyn uchod, a anfonwyd yn Saesneg yn unig. | Aelod o'r cyhoedd              | Cafodd ymchwiliad ei gynnal gyda swyddogion Cwynion Cwsmeriaid, bellach mae'r system wedi'i diweddarau ac yn anfon gohebiaeth yn iaith y gŵyn wreiddiol. Mae'r system hefyd yn tynnu sylw'r Uned Gwasanaethau Cymraeg at unrhyw gwynion sydd wedi'u cyflwyno yn Gymraeg neu sy'n ymwneud â'r Gymraeg er mwyn ein galluogi i roi cyngor ar ymatebion a lleihau'r risg o ddiffyg cydymffurfio. |
| Mai 2018                                   | Adran y Prifffyrdd: Honiad bod arwyddion dros dro wedi eu codi yn Saesneg yn unig   | Comisiynydd y Gymraeg (CSG323) | Penderfynwyd nad oedd Cyngor RhCT yn gyfrifol am godi'r arwyddion. Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol.   |
| Mehfin 2018                                | Gwasanaethau Hamdden: Ymateb awtomataidd uniaith Saesneg.   | Aelod o'r cyhoedd.             | Diweddarwyd y templed. Dwyieithog yn y dyfodol.  |
| Mehfin 2016                                | Uned Ynni: Safon y cyfieithiad ar e-bost ynglŷn ag ynni adnewyddadwy.   | Aelod o'r cyhoedd.             | Cafodd staff yr Adran eu hatgoffa i beidio â defnyddio Google Translate ac i anfon dogfennau at y gwasanaeth cymorth canolog, drwy e-bost, i'w cyfieithu.  |
| Mehfin 2016                                | Carfan Plant Anabl: Cyfathrebu â rhieni yn Saesneg yn unig.   | Aelod o'r cyhoedd.             | Cafodd cyfathrebiadau rheolaidd ledled y Cyngor eu harchwilio yn rhan o'r ymateb i ymchwiliad y Comisiynydd, CSG270. Mae proses bellach ar waith i sicrhau bod pob cyfathrebiad yn ddwyieithog lle nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys a chaiff y goeden benderfyniadau ei defnyddio gan yr holl staff yn y dyfodol i leihau'r perygl o ddiffyg cydymffurfio.                           |



|                 |   |                    |   |
|-----------------|---|--------------------|---|
|                 |   |                    |   |
| Gorffennaf 2018 | Adran y Priffyrdd:<br>Cymraeg anghywir ar arwydd gwaith ffordd.   | Aelod o'r cyhoedd. | Disodlwyd yr arwydd gan Gontractwr y Cyngor.  |
| Gorffennaf 2018 | Y Garfan<br>Achlysuron:<br>Gohebiaeth e-bost at Gynghorwyr yn Saesneg yn unig ynghylch achlysur yn y dyfodol. | Aelod Etholedig    | Cynhaliwyd archwiliad ar draws y Cyngor o ohebiaeth reolaidd fel ymateb gofynnol i ymchwiliad y Comisiynydd, CSG270. Cafodd yr holl wasanaethau eu hatgoffa bod angen darparu gohebiaeth yn ddwyieithog lle nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys. Cyflwyno coeden benderfyniadau i'w defnyddio gan yr holl staff yn y dyfodol i leihau'r perygl o ddiffyg cydymffurfio. |
| Gorffennaf 2018 | Gwasanaeth y Llyfrgelloedd:<br>Honiad o fetu â darparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.                        | Aelod o'r cyhoedd. | Penderfynwyd bod y broses/dull presennol - cynnig gwasanaeth Cymraeg trwy aelod arall o staff (os nad yw'r derbynnydd yn siarad Cymraeg) - yn cydymffurfio ag agweddau rhesymol a chymesur y Mesur.   |
| Gorffennaf 2018 | Adran Adfywio:<br>Methu â darparu e-bost i Gynghorwyr yn Gymraeg.   | Aelod Etholedig    | Cynhaliwyd archwiliad ar draws y Cyngor o ohebiaeth reolaidd fel ymateb gofynnol i ymchwiliad y Comisiynydd, CSG270. Cafodd yr holl wasanaethau eu hatgoffa bod angen darparu gohebiaeth yn ddwyieithog lle nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys. Cyflwyno coeden benderfyniadau i'w defnyddio gan yr holl staff yn y dyfodol i leihau'r perygl o ddiffyg cydymffurfio. |
| Gorffennaf 2018 | Carfan Materion<br>Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant:<br>Methu â darparu e-                                   | Aelod Etholedig    | Cynhaliwyd archwiliad ar draws y Cyngor o ohebiaeth reolaidd fel ymateb gofynnol i ymchwiliad y Comisiynydd, CSG270. Cafodd yr holl wasanaethau eu hatgoffa   |

|             |   |                    |   |
|-------------|---|--------------------|---|
|             | bost i Gynghorwyr yn Gymraeg.   |                    | bod angen darparu gohebiaeth yn ddwyieithog lle nad yw dewis iaith yr unigolyn yn hysbys. Cyflwyno coeden benderfyniadau i'w defnyddio gan yr holl staff yn y dyfodol i leihau'r perygl o ddiffyg cydymffurfio.   |
| Awst 2018   | Gwasanaethau Hamdden:<br>Fersiwn Gymraeg o hysbysiadau gwthio a negeseuon Facebook heb eu cyfieithu'n gywir.    | Aelod o'r cyhoedd. | Cafodd staff yr Adran eu hatgoffa i beidio â defnyddio Google Translate ac i anfon dogfennau at y gwasanaeth cymorth canolog, drwy e-bost, i'w cyfieithu.   |
| Awst 2018   | Adran Drafnidiaeth:<br>Hysbysiad bws wedi'i bostio yn Saesneg yn unig.  | Aelod o'r cyhoedd. | Ymddiheurodd yr Adran a cafodd y staff eu hatgoffa o'r angen i bob neges ar gyfer y cyhoedd fod yn ddwyieithog.   |
| Medi 2018   | Gwasanaeth Etholiadau: Honiad nad oedd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.   | Aelod o'r cyhoedd  | Cydymffurfiodd y Gwasanaeth Etholiadau ag ysbryd y ddeddfwriaeth a rhoddodd gynnig rhagweithiol i siaradwr Cymraeg ffonio'r aelod o'r cyhoedd yn ôl. Mae'r gwasanaeth wedi llunio rhestr o siaradwyr Cymraeg y mae modd eu defnyddio i gynyddu'r ddarpariaeth yn y dyfodol. |
| Medi 2018   | Adran y Priffyrdd:<br>Honiad nad oedd gan blac a godwyd ar ffynnon yng Nghanol Tref Pontypridd fersiwn Gymraeg. | Aelod o'r cyhoedd  | Dim ond ar gyfer gwaith glanhau a chynnal a chadw ar y ffynnon y tynnwyd y plac dan sylw. Felly, ni adnewyddwyd y plac ac nid oedd angen fersiwn Gymraeg. Bydd unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.                                  |
| Hydref 2018 | Gwasanaethau Hamdden:<br>Nid yw'r cyfieithiad o   | Aelod o'r cyhoedd. | Aeth yr Adran ati i ddiweddarau'r poster a gosod un newydd.   |

|               |   |                    |   |
|---------------|---|--------------------|---|
|               | boster ar y safle yn gywir.   |                    |   |
| Hydref 2018   | Gwasanaethau Cynllunio:<br>Methu â darparu e-bost i Gynghorwyr yn Gymraeg.  | Aelod Etholedig    | Mae'r system electronig sy'n cynhyrchu'r negeseuon e-bost awtomatig wrthi'n cael ei diweddarau i ganiatáu templed dwyieithog.   |
| Hydref 2018   | Yr Adran Adnoddau Dynol:<br>Honiad o destun Cymraeg anghywir wedi'i ddarparu ar hysbyseb swydd.                             | Aelod o'r cyhoedd. | Penderfynwyd nad oedd Cyngor RhCT yn gyfrifol am y disgrifiad swydd. Bwrdd llywodraethwyr ysgol leol oedd yn gyfrifol.  |
| Tachwedd 2018 | Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor:<br>Testun Cymraeg anghywir ar arwydd hygyrchedd ar Gerbyd Llyfrgell Symudol Llyfrgell RhCT. | Aelod o'r cyhoedd. | Cafodd arwydd newydd ei osod.   |
| Tachwedd 2018 | Gwasanaeth Celfyddydau RhCT:<br>Testun Cymraeg anghywir ar hysbyseb Wales Online.   | Aelod o'r cyhoedd. | Cafodd yr hysbyseb ei diweddarau. Roedd Wales Online wedi newid y graffeg gwreiddiol a ddarparwyd gan Wasanaeth Celfyddydau RhCT.   |
| Tachwedd 2018 | Adran Addysg:<br>Dolen i holiadur ymgynghori Cymraeg ar-lein ddim yn gweithio.  | Aelod o'r cyhoedd. | Ail-gysylltwyd y ddolen.  |
| Chwefror 2019 | Gwasanaethau Cynhwysiant:<br>Honiad bod oedi mewn cyfathrebu ysgrifenedig oherwydd dewis iaith                              | Aelod o'r cyhoedd. | Cytunodd y Gwasanaethau Cynhwysiant fod angen rhai newidiadau i'w proses (gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei hanfon i Ysgolion), ond ar yr achlysur hwn ni thorwyd unrhyw Safon Iaith gyda'u gohebiaeth gydag aelod o'r cyhoedd. |

|               |  |                                |   |
|---------------|--|--------------------------------|---|
|               | (Cymraeg) yr achwynydd.  |                                | Bydd gwaith archwilio pellach yn cael ei wneud gyda'r maes gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiaeth.  |
| Chwefror 2019 | Adran y Priffyrdd: Codi arwyddion uniaith Saesneg yn ardal Pontypridd.   | Aelod o'r cyhoedd.             | Anfonwyd e-bost i'r contractwr yn gofyn iddo godi arwyddion newydd.   |
| Mawrth 2019   | Adran y Priffyrdd: Honiad o anallu i dalu dirwy parcio yn Gymraeg, ar-lein yn <a href="http://www.SWPG.co.uk">www.SWPG.co.uk</a> | Comisiynydd y Gymraeg (CSG511) | Yn parhau. Darparodd y Cyngor ymateb llawn i'r cais am wybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd, gan nodi y bydd gwefan ddwyieithog yn cael ei lansio ddiwedd Ebrill 2019. Daw hyn ar ôl proses lobïo hir gyda'r darparwr trydydd parti er mwyn sicrhau darpariaeth ddwyieithog. |

## SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r adran yma'n nodi'n fras nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2018-2019 (Mawrth 2019). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

| Blwyddyn | Staff* | Ma  |
|----------|--------|-----|
| 17 - 18  | 7061   | Sta |
| 18 - 19  | 7067   | Sta |
| Blwyddyn | Staff* | Ma  |
| 17 - 18  | 7061   | Sta |
| 18 - 19  | 7067   | Sta |
| Blwyddyn | Staff* | Ma  |
| 17 - 18  | 7061   | Sta |
| 18 - 19  | 7067   | Sta |

|         |      |     |
|---------|------|-----|
| 18 - 19 | 7067 | Sta |
| 18 - 19 | 7067 | Sta |
| 18 - 19 | 7067 | Sta |
| 18 - 19 | 7067 | Sta |

\*Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr -

## **HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2)(b) ac (c)**

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2017-2018 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

## **LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)**

Caiff y ffigyrau canlynol eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd. Mae nifer y swyddi ar y lefel rhwng 2 a 5 fel a ganlyn:

|                 |    |   |
|-----------------|----|---|
| Sgiliau Cymraeg | L2 | 3 |
| Sgiliau Cymraeg | L3 | 0 |
| Sgiliau Cymraeg | L4 | 0 |
| Sgiliau Cymraeg | L5 | 8 |

**Rhagor o wybodaeth:**

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn D

Cwm Clydach

Tonypandy

Swyddfeydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

**Atodiad 1****Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio**

Mae'r canlynol yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau perthnasol yn ystod 17/18 yn seiliedig ar Hunanarfarniadau'r Gwasanaethau unigol.

## **Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd**

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i weithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod prosesau a gohebiaeth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym wedi llunio Siart Gwneud Penderfyniadau er mwyn helpu swyddogion i gydymffurfio. Mae hyn wedi'i nodi fel arfer da ac mae modd ei gyflwyno i rannau eraill o'r Cyngor. Yn rhan o'r arolwg, rydyn ni eisoes wedi cyflawni'r canlynol:

- Adolygiad parhaus o dudalennau'r Wefan, gan ddileu unrhyw dudalennau nad oedd yn cydymffurfio
- Adolygu'r holl ffurflenni / llythyrau safonol
- Pob neges Facebook yn Gymraeg a Saesneg - oni bai ei bod hi'n neges frys, pan fydd hi'n mynd allan yn Saesneg yn unig a'i diweddarau yn Gymraeg cyn gynted â phosibl
- Rhoi systemau ar waith i gasglu dewis iaith ar ein prif gronfa ddata ac, wrth gasglu data (e.e. ffurflenni arolygu) i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol.
- Mae pob gohebiaeth gan y garfan Iechyd a Lles ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac rydyn ni wedi ymgorffori adborth gan garfan Safonau'r Gymraeg ynglŷn â sut rydyn ni'n gwella'r ddarpariaeth.
- Cefnogi nifer o staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg canolradd yn ogystal â hyfforddiant sylfaenol.

## **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Cwblhau'r gwaith o sicrhau bod tudalennau gwefan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yn gwbl ddwyieithog
- Twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg
- Parhau i adolygu pob gohebiaeth i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau

## **Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

Uned Busnes y Cyngor

- Mae'r gwasanaeth wedi codi proffil yr iaith yn sylweddol
- Darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau e.e. Pwyllgorau Craffu a Rheoleiddio;

- Carfan gyfieithu bwrpasol sy'n gweithio'n agos gyda charfanau Busnes a Chraffu'r Cyngor;
- Gwefannau craffu dwyieithog pwrpasol;
- Gohebiaeth ddwyieithog gyda'r holl Aelodau Etholedig drwy e-bost/ffôn;
- Cyfle i'r cyhoedd annerch y Pwyllgorau trwy gyfrwng y Gymraeg (drwy'r protocol sydd newydd ei gyhoeddi, sy'n annog preswylwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r Cyngor);
- Rhyngweithio â staff o fewn carfanau Busnes a Chraffu'r Cyngor er mwyn ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

### Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Mae'r holl ddogfennau Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gael yn Gymraeg. Mae gennym berthynas waith ardderchog gydag Uned Gymraeg yr Awdurdod o ganlyniad i'r angen i gyfieithu'r mwyafrif helaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni hefyd yn cynorthwyo staff yr adran Gymraeg gyda'u hymgyngoriadau eu hunain. Mae'r adran yn parhau i gefnogi aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn eu helpu i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol achlysuron rydyn ni'n cymryd rhan ynddyn nhw. Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd i'w ddefnyddio ar gyfer pob ymgynghoriad ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei gael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg.

### Meysydd Posib ar gyfer Gwella

#### Uned Busnes y Cyngor

- Sicrhau bod trefniadau cyson yn parhau
- Datblygu cynllun peilot i gynyddu argaeledd y Gymraeg mewn cofnodion o benderfyniadau a chyflwyniadau
- Gweithio gyda'r uned gyfieithu er mwyn sicrhau bod cyhoeddiadau sydd ddim yn rhai bryd yn cael eu cyfieithu'n gynt

#### Cyfathrebu/Digidol a Swyddfa'r Cabinet

- Gweithio gyda'r Uned Gymraeg i ddarparu ein gwasanaethau'n ddwyieithog yn ogystal â chynyddu ein cylch gorchwyl o ran hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru drwy gydol y flwyddyn e.e. Dydd Gŵyl Dewi, ymgyrchoedd Cymraeg, yr Eisteddfod



## Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Parhau i helpu staff i ddysgu Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i drigolion a lleihau dibyniaeth ar yr Uned Gyfieithu

## Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i ofynion safonau'r Gymraeg, gyda'r holl ddeunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth a cheisiadau ar-lein, yn ddwyieithog erbyn hyn.

Caiff sgiliau iaith eu hatgyfnerthu trwy recriwtio lle bo hynny'n bosibl, er nad yw hi bob amser yn bosibl recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd ac sydd hefyd â'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol. Wrth ymgysylltu â gwasanaethau, gofynnir i deuluoedd bob amser am eu dewis iaith ac mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i weithio gyda theuluoedd unigol. Cymeradwywyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018. Mae'r cynllun yn manylu ar weledigaeth y Cyngor ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r ffordd y caiff y Gymraeg ei dysgu. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyd-fynd yn agos â'r strategaeth 5 mlynedd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd ei lunio ochr yn ochr â rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys Sefydliadau Cymunedol Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys cynllun gweithredu manwl am y tro cyntaf, a bydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd bob dwy flynedd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y canlyniadau. Mae gan y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid gyfrifoldebau am gyflawni camau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'r 4 ysgol uwchradd Gymraeg yn y sir. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid yn cynnig cefnogaeth i bobl ifainc i wella eu gwydnwch; yn darparu cyrsiau achrededig ac yn brif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddarpariaeth ar ôl ysgol mae'r gwasanaeth yn ei gynnig i bobl ifanc. Roedd gweithgareddau Cymraeg hefyd yn cael eu cynnig trwy gydol y gwyliau ysgol fel Cerdded Ceunentydd, Rafftio ac Adeiladu Tîm.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith i gyflwyno rhaglen o weithgareddau mynediad agored i bobl ifainc sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno 4 Fforwm Ieuenctid ar draws yr ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r fforymau'n cyfarfod bob pythefnos gyda thua 6-10 o bobl ifainc fesul ysgol yn cymryd rhan. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn hwyluso trafodaethau gyda phobl ifainc, gyda ffocws ar godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir trwy gydol y flwyddyn i bobl ifanc fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac ennill achrediad. Yn 2017/2018 darparodd y Fenter Iaith 15 sesiwn i 107 o bobl ifainc, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd**

Mae Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd wedi sicrhau cyllid ar gyfer staff yr Awdurdod Lleol i ymgymryd â hyfforddiant iaith ychwanegol yn nhymor yr Hydref 2018. Y nod yw cyflwyno'r hyfforddiant ehangach yn dilyn y cynllun peilot, a hynny i'r lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a gomisiynwyd yn Nhymor yr Haf 2019. Mae sgoriau'r adnodd monitro ac asesu 2017-18 ar gyfer elfen iaith Gymraeg wedi cynyddu i 78%, gan ddangos cynnydd o 7%. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at yr holl leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a'r Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Mae'r holl staff gofal plant wedi cael eu hyfforddi hyd at lefel 1 ac maen nhw'n defnyddio ymadroddion Cymraeg yn ystod grwpiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wrth ymwneud â'r rhieni a'r plant wyneb yn wyneb.

Ar hyn o bryd mae staff Siarad a Chwarae yn defnyddio ymadroddion Cymraeg wrth gyfathrebu â rhieni/plant yn eu grwpiau. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio 'ymadrodd yr wythnos' er mwyn gwella sgiliau staff wrth iddynt ddefnyddio geiriau neu frawddegau Cymraeg allweddol. Mae'r holl lyfrau stori, a ddefnyddir mewn grwpiau siarad a chwarae, yn ddwyieithog fel bod modd darllen y stori a benthycu'r llyfrau i rieni. Weithiau, bydd y garfan yn darllen y fersiwn Gymraeg o'r stori. Mae caneuon a rhigymau Cymraeg yn cael eu canu bob wythnos.

Rydym yn parhau i gynnig defnydd rhad ac am ddim i awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector o'r cyfleusterau yn y 3 Canolfan i Blant fel bod modd darparu cyrsiau hyfforddi yn Gymraeg. Cynhaliwyd tri diwrnod agored i deuluoedd ar thema Gymreig a oedd yn cynnwys sesiynau blasu iaith, cloccio, Disgo Cymraeg tawel a sesiwn Cymraeg i ddechreuwyr. Daeth

mwy na 200 o bobl i'r sesiynau dros y 3 diwrnod. Yn ogystal â hyn, fe wnaethom ychwanegu sesiwn canu a dawnsio â thema Gymreig i achlysur Picnic y Tedis, gyda dros 3,500 yn bresennol.

Mae pob aelod newydd o staff ar draws y Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd yn y Gymuned yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant Cyflwyniad i Gymraeg yr Awdurdod Lleol, ac yn cael eu cefnogi'n llawn i gwblhau unrhyw hyfforddiant pellach yn ystod oriau gwaith. Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau'r Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd wrthi'n archwilio i allu Cymraeg y staff er mwyn datblygu matrices hyfforddi i sicrhau bod y gwasanaethau'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes gan y Garfan Rhianta siaradwyr/dysgwyr Cymraeg.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Ymchwilio i ddulliau dysgu eraill er mwyn galluogi rhagor o staff i fanteisio ar hyfforddiant er mwyn gwella hyfedredd yn y Gymraeg ar draws ystod o rolau.

### **Gofal i Gwsmeriaid**

Mae'r polisi un drws ffrynt yn ei gwneud hi'n haws i RhCT fodloni Mesur y Gymraeg, gan roi cynnig cyfartal ar y pwynt cyswllt cyntaf drwy ddefnyddio prosesau awtomataidd/seiliedig ar ymgynghorwyr drwy:

- Gwefannau a thudalennau 'sblash' dwyieithog - gwefan ddwyieithog ar gyfer yr holl wybodaeth a thrafodion.
- Mae rhifau ffôn pwysig y ganolfan alwadau yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg o wasgu rhif 1 (does dim rhaid i'r sawl sy'n ffonio aros yn hirach i gael ateb).
- Mae apwyntiadau iBobUn yn cael eu cynnig a'u cynnal yn Gymraeg.
- Cafodd un gŵyn gan y Comisiynydd ei hymchwilio ond roedd hi'n ymwneud â chamgymeriad gan ymgynghorydd - roedd modd i'r Cyngor ddangos tystiolaeth o'i gydymffurfiaeth gyffredinol â'r safon.
- Nododd carfan y rhyngwyd ystod o brosesau ar-lein - cafodd pob un eu cyfieithu cyn cyflwyno'r Safonau.
- Mae Safonau'r Gymraeg yn enghraifft o sut y gall proses gyfuno ddarparu cymorth gwell na derbynfeydd/switsfyrdau rhanedig er enghraifft.

- Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan yng Ngweithgor y Swyddogion.

GWE - mae camau gweithredu penodol wedi'u cyflawni:

- Ffurflenni - Archwiliad o'r holl ffurflenni mewnol wedi'i gyflawni. Gwnaed mân newidiadau.
- Ymatebion e-bost - Erbyn hyn mae pob ffurflen fewnol yn anfon derbynebaw e-bost oddi wrth gwasanaethauigwsmeriaid@rhondda-cynon-taf.gov.uk os cwblhawyd y ffurflen yn Gymraeg.
- Cynhaliwyd Archwiliad o wefan y Cyngor a chyfeiriwyd unrhyw dudalennau nad ydynt yn cydymffurfio at y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol.
- Cefnogi Comisiynydd y Gymraeg trwy ddarparu adborth prydlon i unrhyw ymholiadau am ddarpariaeth gwasanaeth.

Mae'r prosiectau canlynol ar y gweill:

- INFORM - Cynhaliwyd adolygiad o Fewnrwyd y Cyngor a nodwyd nifer o feysydd i'w gwella (ymarferoldeb a chynnwys).
- Cyfeiriadau Cymraeg - Caniatáu i gwsmeriaid chwilio am enwau lleoedd a strydoedd yn Gymraeg wrth ddefnyddio ffurflenni mewnol.

Gwasanaethau Ymgynghori

- Dangosydd Perfformiad o 90% ar gyfer y Ganolfan Alwadau mewn perthynas ag Ymgynghorwyr sy'n Siarad Cymraeg.
- 2017/18 - Derbyniwyd 1,457 o alwadau ffôn (0.2% o'r holl alwadau) gydag amser ymateb cyfartalog o 97 eiliad (41 eiliad yn gynt na'r ciwiau eraill yn ystod y dydd).
- Adroddiad cadarnhaol yn dilyn archwiliad y Comisiynydd - lle cafodd gwasanaeth Cymraeg ei gynnig ym mhob galwad (gweler y dystiolaeth).
- Canmoliaeth drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol ynghylch y gwasanaeth a ddarperir gan y Ganolfan Gyswllt yn Gymraeg (gweler y dystiolaeth).

**Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Recriwtio ymgynghorwyr sy'n siarad Cymraeg a hyfforddi'r rhai presennol.

**Cyflogaeth a Sgiliau**

Mae pob maes Cyflogaeth a Sgiliau yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â dogfennaeth, deunydd marchnata a sicrhau cynnig rhagweithiol. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg fel bod cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn gallu byw eu bywydau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o ran nifer y staff sy'n gallu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, sydd weithiau'n ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod modd rhyngweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob swyddfa. Mae gwahaniaeth hefyd o ran faint o gwsmeriaid sy'n gofyn am wasanaeth yn Gymraeg ar draws y rhaglenni fel y gwelir isod.

### ***Cronfa Gymdeithasol Ewrop***

Mae holl ddarpariaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gael yn Gymraeg, ynghyd â gwaith papur a gwybodaeth ddwyieithog.

Hyd yn hyn, er gwaethaf cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud a'i gofnodi trwy hawliadau, nid oes unrhyw gyfranogwr wedi dewis derbyn darpariaeth/cefnogaeth yn Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae 1 aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg ac mae 2 yn ddysgwyr.

### ***Cymunedau am Waith a Mwy***

Mae'r rhaglenni cymorth cyflogaeth wedi datblygu ffurflen dewis iaith gyffredinol sydd ar gael i'r holl gyfranogwyr er mwyn nodi eu dull cyfathrebu dewisol. Yna caiff taenlen ei llunio mewn swyddfeydd ardal i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion iaith.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac i gefnogi pob aelod o staff yn eu hyfforddiant datblygu personol, darparwyd hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff wedi cyrraedd safon lefel 1 o leiaf, a'u bod yn gallu ymateb i geisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny mae 1 aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg ac mae 6 aelod o staff wedi cyrraedd lefel ganolradd.

Gan weithio gyda swyddogion yr Uned Gymraeg a swyddogion graddedig, cafodd llyfryn 'Beth sydd wedi Newid' ei lunio er mwyn ei ddosbarthu i bartneriaid yn y sector gwirfoddol. Nod hyn yw eu cynorthwyo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, cynigiwyd sesiwn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i bob partner a gomisiynwyd yn y sector gwirfoddol.

Mae gan aelodau'r tîm sydd â lefel 3 ac uwch gortynnau gwddf sy'n nodi eu bod yn ddwyieithog ac yn barod i gyfathrebu drwy ddewis iaith aelod o'r gymuned.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu datblygu ar gyfer y meysydd cyflenwi newydd ac mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r holl ohebiaeth sydd wedi'i hargraffu bellach yn cael ei llunio yn Gymraeg a Saesneg. Yn dilyn cyflwyno Cymunedau am Waith a Mwy, crëwyd gwefan newydd gyda thudalen hafan ganolog a dolenni i'r ardaloedd dosbarthu gwahanol.

### **Addysg i Oedolion**

Mae Addysg i Oedolion yn ffodus o gael 22% o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg - mae hyn yn bennaf oherwydd y gofyn i bob aelod o staff sy'n gweithio yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg fod yn siaradwr Cymraeg gan fod y ganolfan wedi'i lleoli ar gampws cyfrwng Cymraeg.

Gan mai Garth Olwg yw'r ganolfan ar gyfer cofrestru ac ymholiadau mewn perthynas â dysgu oedolion yn y sir, mae'n bosibl gwarantu y gallwch drafod unrhyw agwedd ar addysg i oedolion yn Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn hygyrch o ran cyrsiau - roedd nifer y cyrsiau a gynigiwyd yn Gymraeg yn 2017/18 yn gyson â'r nifer a gynigiwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yn wir, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd a gynigiwyd wedi bod yn gymharol gyson (rhwng 16 ac 20 y flwyddyn).

Mae'r gwasanaeth wedi darparu cynrychiolaeth ar fforwm Cymraeg RhCT ac mae hynny yn ei dro wedi hwyluso datblygiad cyfleoedd newydd trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mae hyn hefyd wedi hwyluso hyfforddiant yn y gweithle ar gyfer sefydliadau megis Meithrinfeydd Cymraeg Lleol a staff Menter Iaith.

Mae lleoliadau gwaith e.e. interniaeth i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ac mae 1 myfyriwr i fod i ddechrau ym mis Ionawr 2019. Hefyd, cynigiwyd cyfleoedd gwirfoddoli i siaradwyr Cymraeg eleni, gan gynnwys siaradwr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan y gwasanaeth bresenoldeb yn achlysur Parti Ponty bob blwyddyn ac mae'n llunio rhaglen theatr Gymraeg o ansawdd uchel mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Celfyddydau.

Mae cyfleoedd da ar gael yng Ngarth Olwg ar gyfer ardal Taf, ond mae hi'n dal i fod yn anodd datblygu cyfleoedd yn ehangach ar draws y sir er bod rhywfaint o dystiolaeth o ddatblygiadau cadarnhaol yn ardal Treorci a, thrwy'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn Hirwaun.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Cynnal archwiliad mewnol o gyfryngau cymdeithasol a deunyddiau sydd wedi'u hargraffu i asesu eu cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.

### **Adnoddau Dynol**

Rydym yn parhau i gefnogi datblygiad darpariaeth Gymraeg trwy gefnogi staff ar gyrsiau Cymraeg, mae 2 aelod o staff yn parhau i wella eu gallu yn y Gymraeg yn dilyn y cyrsiau gloywi y llynedd, a bydd yr holl staff AD yn cael eu hannog i fynychu'r hyfforddiant Lefel 1 fel y bydd yr holl staff AD yn cael eu graddio'n Lefel 1 wedi'u hyfforddi.

- Rydym wedi bodloni'r holl feini prawf a nodwyd yn yr Archwiliad Cymraeg.
- Rydym yn parhau i gyfarfod yn fisol gyda'r swyddog cydymffurfio i adolygu'r polisïau a'r arferion i gynnwys y cynnig gweithredol.
- Rydym yn parhau i gefnogi gwersi gwella Cymraeg i'r rhai sydd â gwybodaeth sylfaenol dda i ennill yr hyder i gefnogi'r gwasanaeth yn y ddarpariaeth Gymraeg
- Rydym wedi diwygio'r Disgrifiad Swydd i gynnwys Lefel 1 yn y Gymraeg fel Maen Prawf hanfodol ar gyfer yr holl staff ac rydym yn gweithio gyda rheolwyr a'r Uned Gymraeg i sicrhau bod yr holl staff sydd newydd eu penodi yn cyflawni lefel 1.
- Er gwaethaf rhywfaint o wrthwynebiad, rydym yn parhau i weithio gyda'r swyddog gwasanaethau a chydymffurfiaeth i ddod o hyd i gyfaddawdau i gyflawni'r hyfforddiant ac esbonio a darbwylo gwasanaethau o'r manteision a'r cyfrifoldebau o fewn Safonau'r Gymraeg.
- Rydym yn hyderus y gallwn sgwrsio'n ysgrifenedig yn Gymraeg pan fo angen, ond nid oes modd darparu gwasanaeth arbenigol fel AD trwy gyfrwng y Gymraeg i'r safon briodol yn y tymor byr, byddai angen i ni recriwtio ymarferydd Cymraeg i gyflawni'r nod hwn.
- Rydym yn sicrhau bod unrhyw bosteri allanol fel digwyddiad Mis Hanes LGBT, neu'r Ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb yn bodloni 'Canllawiau Print Clir' a Safonau'r Gymraeg.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Gweithio'n agos â thîm Vision i sicrhau bod y system newydd yn integreiddio lefelau a dewis iaith Gymraeg yn y cofnod personol er mwyn ei gwneud yn haws i ni barhau i gydymffurfio o fewn y Safonau.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff AD fynychu hyfforddiant lefel un.

## **Gwasanaethau Hamdden, Parciau, Cefn Gwlad, Cofrestru a Phrofedigaethau**

Mae'r Gwasanaethau yn parhau i gydymffurfio â gofynion y Gymraeg o ran cyhoeddiadau, gohebiaeth a rhyngweithio. Mae gan bob aelod o staff fynediad at hyfforddiant datblygu iaith, os yw'n cael ei nodi fel angen.

Cyflwynwyd gwersi nofio ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth â'r Urdd, yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant.

Mae'r ap aelodaeth Hamdden am Oes ar gael yn Gymraeg ac mae gan yr holl offer ffitrwydd newydd opsiwn Cymraeg ar gyfer yr unedau arddangos rhyngweithiol.

Mae'r gwasanaethau wedi recriwtio nifer o weithwyr newydd sydd â sgiliau Cymraeg.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Recriwtio rhagor o staff cyflenwi sy'n siarad Cymraeg ac ymgysylltu â sefydliadau cymunedol sy'n darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Parhau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i staff.

### **Llyfrgelloedd**

Yn 2018 roedd y gwasanaeth yn destun archwiliad gan Swyddog Cydymffurfio - y Gymraeg ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Lefel cydymffurfio - darparu gwasanaeth - 53%

Lefel cydymffurfio - llunio polisi - 50%



Lefel cydymffurfio gweithredol - 95%

Lefel cydymffurfio - cadw cofnodion - 100%

Mae'r canlyniad siomedig ar gyfer darparu gwasanaeth oherwydd y canlynol:

- Diffyg cysondeb ar draws rhai safleoedd, er enghraifft, mewn cyfarchion ffôn neu ymatebion i negeseuon e-bost/ceisiadau cyfrwng Cymraeg - ni ellir bodloni'r Safonau oni bai bod pob un o'r 13 lleoliad yn cydymffurfio, hyd yn oed os nad yw un lleoliad wedi cadw at y safon berthnasol yna mae'r gwasanaeth cyfan yn methu ar y safon honno
- Nid oedd y digwyddiadau ymgynghori cymunedol yn cydymffurfio gan nad oeddent yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at allu pobl i gyfrannu yn Gymraeg
- Problemau gyda dolenni ar y wefan
- Llungopiwyr heb gyfarwyddiadau dwyieithog ac ati
- Nid yw stampiau dyddiad y llyfrgell yn ddwyieithog
- Polisiâu llyfrgell heb eu cyfieithu ac nid oedd y Strategaeth Llyfrgelloedd yn nodi bod fersiynau Cymraeg ar gael

Cafodd y lefel cydymffurfio â pholisi ei heffeithio'n andwyol gan y ffaith nad oedd yr ymgynghoriad canolfannau cymunedol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at, nac yn ceisio barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg, na sut i liniaru unrhyw effaith niweidiol ar y Gymraeg.

Yr unig elfen llyfrgell-benodol nad oedd yn cydymffurfio yn yr adran hon oedd y ffaith nad oedd 14 aelod o staff wedi cwblhau eu ffurflen sgiliau Cymraeg staff.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd a dydy'r mwyafrif o wallau cydymffurfio ddim wedi'u hymdrin â nhw os ydynt o fewn maes rheolaeth y Gwasanaeth Llyfrgell.

Mae'r ffaith bod pob aelod o'r gwasanaeth llyfrgell wedi cael ei gofrestru ar gyrsiau gloywi iaith yn arbennig o bwysig. Mae'r rhain wedi cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth i'r gymuned gydag un cwsmer yn cysylltu â'r rheolwr i ddiolch i'r Cyngor am drefnu'r hyfforddiant gan ei bod bellach nid yn unig yn cael ei chyfarch yn Gymraeg gan ei llyfrgellydd lleol, gallai gynnal sgwrs fer gyda hi hefyd.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i hwyluso ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a gyflwynir gan sefydliadau partner gan gynnwys:

- Dosbarthiadau Cymraeg
- Clybiau Llyfrau cyfrwng Cymraeg
- Cylchoedd rhieni a phlantos bach cyfrwng Cymraeg
- Cymraeg i Blant
- Sesiynau ysgrifennu creadigol yn Gymraeg drwy weithio mewn partneriaeth
- Gwyliau Miri Mawr
- Boreau Coffi Cymraeg

Prynir llyfrau cyfrwng Cymraeg ac maen nhw wedi'u targedu at lyfrgelloedd priodol, ond gostyngodd canran y buddsoddiad ychydig eleni (fel y cofnodwyd yn 1.1), sy'n golygu na lwyddodd y gwasanaeth i fodloni'r dangosydd ar brynu llyfrau Cymraeg.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Sicrhau bod Cynllun Gweithredu'r Gymraeg yn cael ei weithredu'n llawn a bod rheolwyr yn monitro pob maes cydymffurfio yn rheolaidd i sicrhau gwelliant parhaus.

### **Cludiant**

Mae'r Gwasanaeth Cludiant wedi adolygu a diwygio ei Bolisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio i Ddysgwyr er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau newydd. Rydyn ni wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau, ac mae'r llythyrau safonol ar gyfer cynulleidfaoedd cyffredinol wedi'u hadolygu a'u cyfieithu. Mae amserlenni bws ochr y ffordd yn ddwyieithog, ynghyd â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r gwasanaeth ar wefan y Cyngor.

Rydyn ni'n gwahodd rhieni i gyfathrebu â'r Gwasanaeth yn Gymraeg yn rhan o'r broses derbyn ac rydyn ni'n cadw cofnodion. Nid oes unrhyw un wedi gofyn am y gwasanaeth hwn hyd yma. Mae tri aelod o staff yn y gwasanaeth â meistrolaeth resymol ar y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae un arall yn dysgu'r iaith. Yn ystod 2018 derbyniodd y Gwasanaeth 2 gais am ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a 2 alwad ffôn gan drigolion oedd yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg drwy'r Ganolfan Alwadau. Unwaith eto, ni chodwyd unrhyw gwynion am ddefnydd y Gwasanaeth o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Ni fu unrhyw newid gwirioneddol yn nifer y dysgwyr (3,676) sy'n cael eu cludo i Ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Ddwyieithog. Mae hyn yn cynrychioli 32.6% o'r cyfanswm. Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Mehefin 2016 yn ystyried bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio i Ddysgwyr yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y gymuned Gymraeg, ar yr amod bod cludiant ysgol yn cael ei ddarparu'n gyson ac yn deg, a bod anghysondebau yn y ddarpariaeth yn cael eu lliniaru. Fe wnaeth yr adolygiad yn 2017 sicrhau bod hyn yn wir a bod yr anghysondebau a nodwyd wedi cael eu dileu o fis Medi 2018.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Annog mwy o staff i ddysgu Cymraeg.

### **Gwasanaethau'r Celfyddydau**

Mae pamffled a gwefan ein theatrau yn ddwyieithog erbyn hyn ac mae ein holl ddeunydd marchnata yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ddwyieithog.

Mae'r gwasanaeth wedi diweddarau ei Gynllun Iaith, a gynhyrchwyd fel rhan o'n cytundeb gyda CCC. Rydym yn parhau i gefnogi Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg i ddatblygu rhaglen Gymraeg a chyfranogol. Yn dilyn taith lwyddiannus o'r testun clasurol 'Miss Julie' trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym hefyd yn parhau i weithio gyda Gareth John Bale i gyd-gynhyrchu gwaith Cymraeg i deithio ledled Cymru.

O'r 9 swyddog sy'n rhan o Garfan Reoli Ehangach y gwasanaeth, mae 3 ar Lefel 5, gyda 3 arall yn dysgu Cymraeg.

Mae staff yn parhau i ddysgu Cymraeg. Mae gan staff gortynnau gwddf a llofnodion e-bost i nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Gwneud y Gymraeg yn hanfodol wrth benodi staff y swyddfa docynnau a blaen tŷ
- Hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid Cymraeg i staff y swyddfa docynnau a blaen tŷ
- Digwyddiadau Cymraeg a rhaglen gyfranogi yn Theatrau RhCT a chefnogi'r rhain yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg

- Pantomeim Cymraeg

## **Gwasanaethau i Blant**

Mae'r Gwasanaethau i Blant yn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg sylfaenol. Mae pob aelod o staff yn gwybod am y gofynion o ran y Gymraeg a sut bydd hyn yn effeithio ar ei faes gwasanaeth. Mae gwasanaethau rheng flaen, sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth, yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau o'r fath yn ôl yr angen. Mae defnyddwyr gwasanaeth sydd yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu nodi yn system SWIFT.

Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant fydd yn eu galluogi i ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol wedi cael ei rhoi i reolwyr mewn cyfarfodydd ac maen nhw wedi ymgymryd â modiwlau e-ddysgu mewn perthynas â mesurau'r Gymraeg. Caiff gwybodaeth berthnasol ac unrhyw ddiweddariadau eu rhoi i'r staff mewn cyfarfodydd carfan.

- Mae gwefan Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf a gwefan Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddwyieithog.
- Gohebiaeth am Blant sy'n Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.
- Mae'r holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog.

## **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Annog mwy o staff i ddysgu Cymraeg

## **Priffyrdd**

Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd yn parhau i fabwysiadu Safonau'r Gymraeg ac felly wedi ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio diweddar mae pedwar aelod o staff o fewn y Gwasanaeth sydd â sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig rhesymol, ac mae nifer o staff sydd ar hyn o bryd yn dilyn cyrsiau i ddysgu'r iaith. Yn ogystal â hynny, o'r 4 prentis a gyflogwyd ym mis Medi, mae 3 yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau â thrigolion neu pan fydd llythyrau cyffredinol yn cael eu hanfon, darperir pob gohebiaeth yn ddwyieithog h.y. trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol o ran adnewyddu arwyddion neu enwau strydoedd, mae pob arwydd newydd a gaiff ei osod yn ddwyieithog. Mae enwau strydoedd newydd bellach yn Gymraeg yn unig, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach.

Fel rhan o'r gwaith i liniaru problemau os bydd cwsmeriaid yn dymuno trafod neu dalu dirwyon parcio yn Gymraeg, rydym wedi sefydlu cyswllt uniongyrchol â chanolfan alwadau'r Cyngor.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Anogaeth bellach i staff ymuno â chyrsgiau Cymraeg.

### **Adfywio, Cynllunio a Thai**

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio'n agos gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r holl ddogfennau a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys yr holl ohebiaeth a chyhoeddiadau. Mae gan y Gwasanaeth hefyd nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n gallu hwyluso trafodaethau wyneb yn wyneb, galwadau ffôn a chyfarfodydd

Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio ochr yn ochr â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod yr holl dudalennau gwe a dolenni yn ddwyieithog.

Hyd yma, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion cyhoeddus nac ymchwiliadau ffurfiol gan y Comisiynydd. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd ynghylch darparu gwasanaethau neu wybodaeth yn Gymraeg yn gyflym ac yn effeithlon.

Mae natur y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth a'r systemau swyddfa gefn a ddefnyddir yn golygu bod cofnodi a dadansoddi'r defnydd o'r Gymraeg a cheisiadau am wasanaethau yn anodd. Mae hyn wedi cael ei fwydo yn ôl i'r Uned trwy Gais am Wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle yn weithredol trwy annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae staff sydd wedi sicrhau dyrchafiad o fewn y gwasanaeth yn mynychu cyrsiau Cymraeg Lefel 1.

Fel rhan o'r gwaith o uwchraddio system y swyddfa gefn o Acolaid i Uniform Planning, mae LinguaSkin wedi'i gaffael i gyfieithu'r cyfleuster Mynediad Cyhoeddus a gynigir ar y wefan. Mae hwn yn gynnydd enfawr yn ein gallu i gynnis gwasanaeth Cymraeg cyflawn i'n cwsmeriaid.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Diffyg staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg

### **Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Gwastraff**

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Mae llythyrau, taflenni a phosteri safonol, yn ogystal ag arwyddion, yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar ein gwefan yn ddwyieithog ac ers y cyfarfod diwethaf, rydyn ni wedi edrych ar ein tudalennau gwe i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei rhoi.

Hyd yma, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gwynion gan y Comisiynydd a dim ond 2 ymholiad unigol rydyn ni wedi gorfod delio â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg ers yr asesiad diwethaf. Cynorthwyodd cydweithwyr o'r gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid ni yn ystod y broses yma.

Rydyn ni'n hysbysu staff newydd o'n gofynion gwasanaeth o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Ers yr asesiad diwethaf, rydyn ni wedi parhau i adnabod ac annog staff sy'n awyddus i gael hyfforddiant gloywi neu sydd am ddechrau cwrs Cymraeg llafar i ddechreuwr. Rydyn ni wedi diweddarau ein ffeiliau hyfforddiant gan nodi pa aelodau o staff yn y gwasanaeth sy'n rhugl ac yn rhannol rugl wrth sgwrsio yn Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ac yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn gyfarwydd â pholisïau'r Cyngor. Er mwyn sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau, mae dulliau amgen o gyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried, er enghraifft, hyfforddiant ben bore ar gyfer gweithredwyr gwastraff a glanhau mewn depos.

### **Meysydd Posib ar gyfer Gwella**

- Cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sy'n delio ag aelodau'r cyhoedd yn ddyddiol.

## Gwasanaethau i Oedolion

Mae Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i ymateb yn effeithiol i ofynion Safonau'r Gymraeg a "Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol" Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Mawrth 2017 - gan weithio yn agos â chydweithwyr yn Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a fforwm chwarterol "Mwy na Geiriau" Cwm Taf.

Mae Gwasanaethau i Oedolion yn darparu gwasanaeth 'cynnig rhagweithiol' gyda'r Gymraeg yn cael ei chynnig a'i dewis, lle bo hynny'n berthnasol, ar y pwynt cyswllt ac wrth ymgysylltu â theuluoedd. Darperir gwasanaethau yn yr iaith ddewisol (a'u cofnodi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) a chaiff siaradwyr Cymraeg eu neilltuo i weithio gyda nhw. Mae gwiriadau dewis iaith Gymraeg yn ofynnol pan gaiff data craidd ei wirio mewn adolygiadau.

Mae pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a DEWIS, bellach ar gael yn ddwyieithog yn dilyn adolygiad yn 2018 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae holl bolisiau'r Cyngor yn cael eu hystyried o ran eu heffaith ar faterion cydraddoldeb (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) drwy'r broses adrodd gytûn. Mae hyn, ynghyd â gwaith monitro rheolaidd gan garfan gydraddoldeb y Cyngor, yn sicrhau bod polisiau yn gyson â'r Safonau a mentrau iaith eraill.

Mae'r fframwaith monitro contractau'r Gwasanaethau i Oedolion yn cadw gwyliadwriaeth gyson ar bob darparwr i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant fydd yn eu galluogi i ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol wedi cael ei rhoi i reolwyr mewn cyfarfodydd ac maen nhw wedi ymgymryd â modiwlau e-ddysgu mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hyfforddiant Cymraeg wedi'i ymgorffori yn Fframwaith Sefydlu staff y Gwasanaethau i Oedolion ac mae pob aelod newydd o staff yn ymgymryd â hyfforddiant lefel 1.

Yn ystod 2018, ni dderbyniodd y Gwasanaethau i Oedolion unrhyw gwynion na sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud ag argaeledd darpariaeth Gymraeg ar draws y Gwasanaeth.

### Meysydd Posib ar gyfer Gwella

- Sicrhau y cydymffurfir ag archwiliadau dewis iaith Gymraeg yn yr adolygiad pan gaiff data craidd ei wirio a bod System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei diweddarau'n gywir
- Mae gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni a, lle bo'n briodol, yn cael eu cryfhau, gyda darparwyr allanol drwy delerau ac amodau'r contract